# Canlyniadau Ymgynghoriad Ysgolion 21 Ganrif Canlyniad

# Deganwy

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

## Pwy gymerodd ran?

| | |
|---|---|
| Disgyblion Deganwy | 60 |
| Rhieni/gwarcheidwaid | 59 |
| Staff | 25 |
| Llywodraethwr | 4 |
| Cyhoedd | 11 |
| Cynghorydd | 2 |
| Arall | 5 |

Cod Post:

78% o bobl yn dod o LL31

## A ydych yn credu y gellid gwneud eich adeilad ysgol yn well?

76% Ydw

99% Ydw

## Beth hoffech ei weld?

| | |
|---|---|
| Adnewyddu / Atgyweirio | 48 |
| Adolygu Neuadd yr Ysgol | 22 |
| Estyniad 2il Lawr | 6 |
| Estyniad un llawr | 5 |
| Ystafelloedd Dros Dro i Adeiladau Parhaol | 3 |
| Arall | 6 |

| | |
|---|---|
| Adnewyddu / Atgyweirio | 18 |
| Neuadd Ysgol Well | 16 |
| Ystafelloedd Dros Dro i Adeiladau Parhaol | 15 |
| Estyniad 2il Lawr | 11 |
| Estyniad un llawr | 4 |

## Pa wasanaethau ‘ychwanegol’ sy’n bwysig i chi mewn ysgol?

| | |
|---|---|
| Chwaraeon/adnoddau hamdden | 50 |
| Adnoddau dysgu awyr agored | 50 |
| Clwb brecwast | 44 |
| Clwb ar ôl ysgol | 31 |
| Defnydd cymunedol | 25 |
| Cyn ysgol/Cylch | 21 |
| Cyswllt cludiant cyhoeddus | 9 |
| Arall | 3 |

| | |
|---|---|
| Chwaraeon/adnoddau hamdden | 14 |
| Adnoddau dysgu awyr agored | 9 |
| Clwb brecwast | 8 |
| Clwb ar ôl ysgol | 8 |
| Defnydd cymunedol | 8 |
| Cyn ysgol/Cylch | 7 |
| Cyswllt cludiant cyhoeddus | 6 |

## Uchafbwyntiau Sylwadau Ymgysylltu Deganwy

O fewn tir yr ysgol mae adeilad pwrpasol sy'n gartref i glwb tu allan i'r ysgol a grŵp chwarae sy'n cael eu rhedeg yn llwyddiannus iawn. Caiff yr adeilad hwn ei ddefnyddio fel canolfan gymuned gyda'r nosau ac ar benwythnosau hefyd.

Mae angen gwella'r cae tu allan ar gyfer defnydd cyfoes. Bydd wyneb bob tywydd fel 4G yn golygu y gellir ei ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn. Gellid hefyd ei ddefnyddio gan y gymuned tu allan i oriau ysgol. Hefyd mae angen gwella ar y problemau parcio tu allan i'r ysgol cyn i ddamwain ddifrifol ddigwydd. Fy awgrym i fyddai gosod llinellau melyn dwbl ar Park Drive. Fedrwn ni ddim cymryd y risg o ddamwain yn digwydd.

Byddai'r fynedfa i'r maes parcio'n elwa o gael ei lledu neu ei newid. Mae mynediad yn anodd gyda thai gerllaw a hefyd cerddwyr. Hefyd parcio anabl. Mae angen parcio ychwanegol. Mynediad i bobl anabl ledled yr adeilad.

Fel preswylydd lleol, buaswn llwyr yn erbyn estyniad 2 lawr yn Neganwy. Ymddengys nad oes sail ddilys i hyn gan nad oes digon o ddisgyblion ar gyfer dosbarthiadau blynyddoedd unigol. Mae gennym 3 dosbarth cymysg x blynyddoedd 3 a 4, a 3 dosbarth cymysg blwyddyn 5 a 6, gallai'r ystafell wrth y stafell athrawon fod ar gyfer adnoddau (llyfrgell/ TGCh ac ati) a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld – iaith a lleferydd, ThG, seicolegwyr ac ati. Gallai'r ystafell gerdd bresennol fod yn ystafell ddosbarth. Mae angen ailwampio'r cae/ gosod glaswellt artiffisial ar gyfer defnydd trwy'r flwyddyn, sawl pwrpas. Nid yw maes chwarae antur yn berffaith ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn tywydd drwg felly dylid ystyried ymestyn yr ysgol arno.

Mae problem fawr gyda pharcio tu allan i'r ysgol, yn enwedig yn y bore a'r prynhawn pan fo'r plant yn cael eu gollwng i fynd i'r ysgol ac yn y prynhawn pan maent yn cael eu casglu i fynd adref. Rwy'n gwerthfawrogi nad yw hon yn broblem hawdd i'w datrys ac yn un mae'r mwyafrif o ysgolion yn y sir yn ei hwynebu. Ond os yn bosibl, efallai rhyw fath o ardal barcio/ gollwng o flaen yr ysgol, awgrym arall a wnaed ar sawl achlysur mewn cyfarfodydd llywodraethwyr yw gwneud Park Drive yn stryd un ffordd a allai o bosibl liniaru rhai o'r problemau traffig ar adegau brig yn ystod y dydd. O ran gofod tu allan, byddai'n braf cael wyneb bob tywydd lle mae'r cae pêl-droed presennol yn yr ysgol, byddai hyn yn golygu y byddai ar gael trwy gydol y flwyddyn i'r plant ei ddefnyddio, ar hyn o bryd ni allant ddefnyddio'r cae os yw'n wlyb neu'n fwdlyd. Hefyd, fel gyda neuadd newydd, gallai hon fod ar gael i'r gymuned leol ei defnyddio tu allan i oriau ysgol a byddai'n cynhyrchu ychydig o incwm ychwanegol ar gyfer yr ysgol.

Neuadd fwy gyda lle i storio offer ymarfer corff, offer cerdd, byrddau cinio ac ati – offer dringo diweddar ar gyfer citiau addysg gorfforol, offer cerdd ar gyfer AG. Mae angen trwsio/ ailadeiladu'r waliau yn y neuadd a nifer o'r dosbarthiadau. Diweddaru'r cyfleusterau toiled. Mae angen diweddaru ardal awyr agored CA1 a'r babanod gydag arwynebau ac amgylchedd cyfeillgar i blant. Mae parcio ar gyfer staff (a rhieni) yn gyfyngedig. Byddai'r ysgol gyfan, CA1 a CA2 yn elwa o ardaloedd chwarae dan do ar gyfer pant i'w defnyddio mewn tywydd drwg ac i gysgodi mewn tywydd poeth. Llwybrau beicio ar gyfer rhieni, plant a staff i feicio i'r ysgol. Ystafelloedd ychwanegol yn yr ysgol ar gyfer cyfarfodydd, gwaith grŵp bach, athrawon ac amser cymdeithas rhieni ac athrawon.

Mae Mrs Haf Williams a'i staff yn gwneud gwaith rhagorol gyda llety is na'r safon.

Ar ôl siarad gyda staff yn yr ysgol, fy nealltwriaeth i yw bod angen ymestyn neuadd yr ysgol ar gyfer nifer cynyddol o fyfyrwyr. Byddai canopi awyr agored hefyd yn gwella dysgu ac yn hwyluso gwersi yn yr awyr agored. Mae nifer o'r ystafelloedd dosbarth angen gwaith cynnal a chadw gan fod problem lleithder yn llawer ohonynt. O safbwynt personol, hoffwn weld ail-fuddsoddi mewn TG, gan fy mod yn gweld hyn yn hanfodol o ran paratoi plant ar gyfer bywyd/ gwaith yn y byd modern.

Posibilrwydd o gae math 'Astro-turf' fel y gellid ei ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn ac y gellid ei osod gyda'r nos i adfer rhan o'r gost. Dymchwel y dosbarth tu allan a'i gynnwys yn y prif adeilad. Posibilrwydd o greu adeilad newydd ar gyfer y neuadd/ ffreutur a thrawsnewid y neuadd/ gegin bresennol yn ystafelloedd dosbarth. Gellid creu storfa uwchben y neuadd bresennol. Mae lleithder drwy'r holl fannau storio.

I'r ysgol fod yn barod i wynebu heriau'r 21ain Ganrif, mae'n rhaid ystyried y canlynol: (1) I'r ysgol fod yn 'ynni-effeithlon' (2) I system wresogi ac awyru'r adeilad fod yn effeithiol (3) Lle parcio i bobl anabl a mynedfa o'r maes parcio i fod yn ddiogel ar gyfer gyrwyr a cherddwyr. (4) Yr ardal tu allan i fod yn ddiogel ar gyfer disgyblion (5) Yr ardal tu allan i fod yn gynaliadwy (6) Y mynediad i'r ysgol i fod yn ddiogel; diogelu disgyblion, staff yr ysgol ac ymwelwyr (7) Y neuadd i fod â mynedfa ar wahân i'r ysgol, fel gall y gymuned ddefnyddio'r neuadd gyda'r nos, ar benwythnosau a gwyliau, heb orfod mynd i mewn i'r prif adeilad. (8) Ystafell benodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd ADY yn ganolog ar ddisgyblion.

Estyniad i'r cyfleusterau neuadd chwaraeon ar gyfer dysgu awyr agored. Cae bob tywydd. Ailwampio'r dosbarthiadau – mae gan lawer leithder ynddynt ac maent mewn cyflwr drwg.

Byddai'n wych cael llefydd parcio ar gyfer gollwng a chodi'r plant mewn modd diogel. Hefyd, gosod paneli haul ar do'r adeilad ar gyfer cynhesu dŵr a chynhyrchu trydan.

Mae fy mhedwar plentyn wedi mynychu Ysgol Deganwy ac mae rhai yn dal i'w mynychu. Mae'n ysgol wych ond mae hi wir angen ac yn haeddu cael ei huwchraddio, gan ddod â hi yn gyfoes.

Mae rhai ardaloedd o'r ysgol sydd mewn cyflwr gwael, yn bennaf, neuadd yr ysgol ac ystafell ddosbarth Foel Fras. Nid yw'r system wresogi yn addas i'w phwrpas gyda'r mwyafrif o'r ysgol yn cael ei gadael efo ychydig iawn o wres. Mae neud yr ysgol yn rhy fach i'w defnyddio i ddarparu gwersi AG o ansawdd uchel, yn enwedig gan fod yn rhaid ei ddefnyddio i storio byrddau bwyd. Mae adeilad yr ysgol yn dod yn rhy fach ar gyfer nifer y disgyblion sy'n mynychu. Mae yna ddigon o ofod tu allan y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ymestyn yr adeilad a chynyddu capasiti. Gallai'r warchodfa natur ac ardal y pwll hefyd wneud efo cael eu hailwampio.

Cynyddu maint y neuadd. Cynnwys adeiladau dros dro fel rhan o'r brif ysgol. Gwaith trwsio cyffredinol i'w waliau/ to. Moderneiddio'r adeilad. Gwneud yn fwy ynni effeithlon.

Mae llawer o'n waliau yn llaith ac angen cwrs gwrth-leithder effeithlon. Mae'r gwresogi mewn sawl rhan o'r ysgol yn wael. Mae'r ffenestri dwbl wedi eu gosod yn wael ac yn gwastraffu gwres. Mae'r neuadd yn rhy fach ac yn gwneud gwasanaeth i'r ysgol gyfan yn anodd. Mwy o gyfleusterau toiled. Mae rhai o nenfydau'r dosbarthiadau yn rhy uchel. Mae tymheredd ystafelloedd yn oer ac yn llaith - rhy bell o'r toiledau. Ystafell benodol ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant ADY, fel nad oes rhaid i ni weithio yn y coridor.

Mae angen addasu'r ysgol, llawer o waith trwsio gyda phaent yn plicio oddi ar y waliau, lleithder mewn dosbarthiadau - yn effeithio ar iechyd. Mae angen gwella'r ardal tu allan ar gyfer dysgu, chwarae a chwaraeon tu allan, o bosibl cae 4G. Mae'r neuadd yn rhy fach ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'r mannau gollwng/ codi ar y ffordd yn ofnadwy - y ffordd yn rhy gul, dim llefydd parcio, mae tagfeydd. Mae angen diweddaru'r warchodfa natur/ gerddi, does dim llyfrgell benodol/ ystafell TG. Ystafell gerdd fwy - gellid ymestyn y gerddorfa. Dim labordy gwyddoniaeth. Ei gwneud yn fwy amgylchedd cyfeillgar, economegol ac effeithlon. Coridorau cul- materion diogelwch. Palmentydd o amgylch yr ysgol yn anwastad ac mae baw cŵn.

Mae angen trwsio'r ysgol ac nid yw o gapasiti digon ar gyfer y niferoedd sy'n ei defnyddio. Mae angen gwaith trwsio ar waliau'r neuadd yn benodol. Mae gwarchodfa natur yn ysgol yn adnodd gwych, ond mae angen ei gynnal a chadw fel y gellid ei defnyddio unwaith eto. Byddai mwy o gyfleusterau awyr agored (arddull ysgol goedwig) hefyd yn plesio, llecyn llysiau ac ati.

Mae ysgol eco yn bwysig iawn i fy mab, byddai cyfleusterau ychwanegol e.e. cyfleusterau ailgylchu, ffyrdd i wella cynaliadwyedd, ardaloedd ailgylchu dŵr glaw/ ailgylchu dŵr llwyd, paneli solar ac ati yn helpu addysg ar y materion hyn.

Mae angen gwneud y ffordd tu allan yn fwy diogel ar gyfer disgyblion. Llinellau melyn/ system un ffordd.

Rydym ar hyn o bryd yn llawn a chyda'r ymgyrch barhaus i adeiladu mwy o dai, byddwn yn parhau i fod felly. Felly, rydym angen mwy o ystafelloedd dosbarth, o bosibl estyniad un llawr a neuadd - dwywaith maint yr un bresennol!

O safbwynt diogelwch, dylid cael llinellau melyn dwbl ar y ffordd neu ddim parcio (heblaw preswylwyr) yn ystod amser gollwng a chodi. Paneli solar a system gynaeafu dŵr glaw er mwyn galluogi'r ysgol i fod yn annibynnol o ran ynni ac adnoddau. Mae angen ail-blastro a phaentio'r waliau i gyd ac o bosibl eu trin am leithder hefyd. Rydym angen ystafell synhwyrau gan fod ysgolion yn cael eu gwthio i gymryd mwy o ddisgyblion ADY i mewn, mynedfa ramp a llwybr mynediad lletach o amgylch yr ysgol gyfan. Gwydrau dwbl ym mhob ystafell ddosbarth. Gwell cyfleusterau storio. Gofod tu allan wedi'i uwchraddio - cae 4G,m iard derbyn lai peryglus. Technoleg i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Gwifrau a systemau gwresogi ledled yr adeilad. Gwell parcio a chyfleusterau ar gyfer staff. Gwell toiledau ar gyfer disgyblion. Bleindiau newydd yn yr ystafelloedd dosbarth.

Mae'r gofod tu allan yn wych, gellid gwneud gwell defnydd ohono, mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu tu allan, galluogi plant i dreulio mwy o amser tu allan. Mae'r lonydd sy'n union o amgylch yr ysgol mewn cyflwr gwael – problemau parcio parhaus.

Yn ogystal â darparu neuadd newydd, byddai cwpl o ystafelloedd dosbarth newydd o fantais fawr i'r ysgol hefyd.

Ryw'n credu beth bynnag a wneir, mae angen i ni gael rhyw fath o ficro-gynhyrchu. Mae ein hysgol yn wynebu'r de ac mewn lle delfrydol ar gyfer paneli solar. Rydym angen ystafelloedd dosbarth sydd yn ddigon mawr ar gyfer cypyrddau a silffoedd llyfrau, ystafelloedd dosbarth gyda digon o olau naturiol e.e. ffenestri Velux. Os yw'r ffenestri yn wynebu'r de, bydd angen eu gorchuddio â chôt adlewyrchol fel nad oes raid i ni gau'r bleindiau pan mae'n heulog. Byddai'n braf cynnwys coed yn y dyluniad i greu awyrgylch braf. Byddai gweld coed ceirios yn beth braf.

Byddai cae bob tywydd tu allan yn dda. Byddai llwybr beicio diogel yn anhygoel ar gyfer y plant.

## Sylwadau Ymgysylltu Disgyblion

**Sylwadau ar y neuadd Chwaraeon, caeau neu ardaloedd chwarae / dysgu tu allan**

- Cae 3G
- Rhannu'r ardal chwarae ar gyfer mwy o weithgareddau
- Ffens rhwng iard blwyddyn 2 ac iard y babanod
- Cae Astro-turf
- Mwy o gemau i'w chwarae tu allan
- Cael gwared ar y cerrig yn yr ardd
- Gwneud y cae chwarae yn fwy
- Torri'r (glaswellt yn y) cae chwarae yn amlach
- Mwy o gemau maes chwarae (e.e. peli)
- Torri'r glaswellt yn amlach
- Offer AG

## Ailwampio neu estyniad

- Llyfrgell
- Ymestyn allan tuag at y ffordd
- Gwell system wresogi
- Ystafelloedd newid ar gyfer AG
- Neuadd fwy
- Ystafell ddosbarth TGCh
- Toiledau yn y caban fel nad oes rhaid cerdded mor bell
- Cwpwrdd AG mwy

## Gwaith Trwsio a Gwelliannau

- Waliau yn y neuadd
- Gwneud y drysau'n llai trwm
- Ailaddurno'r bloc a waliau'r coridor
- Trwsio'r gwresogi yn y bloc
- Mae angen ailblastro'r waliau yn y neuadd

Diolch i bawb a gymerodd ran
ac am ychwanegu i'r broses.

